



# Teithiau Iach yn Ysgol Bro Pedr



Cafodd Cyngor Sir Ceredigion grant gan 'Gynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned' Llywodraeth Cymru 2016-18 i wneud gwelliannau yn ardal Ysgol Bro Pedr, wedi'u cyllido'n rhannol gan Gyngor Tref Llambed. Cafodd y cynllun ei weithredu a'i gyllido'n rhannol gan Gyngor Sir Ceredigion gan gyflwyno parth 20 milltir yr awr newydd gyda mesurau gostegu traffig i helpu i greu amgylchedd mwy diogel ac annog mwy o ddisgyblion i gerdded, sgwtera a beicio i'r ysgol.




Mae'r teithiau Teithio Iach hyn yn helpu'r plant i fod yn fwy iach, atal gordewdra, gwella canolbwyntio yn y dosbarth a hefyd yn helpu i leihau tagfeydd ac allyriadau carbon y tu allan i gatiau'r ysgol.



Mae'r ysgol hefyd yn rhan o 'Gynllun Teithiau Iach' Sustrans Cymru sy'n annog ac yn galluogi mwy o blant i feicio, sgwtera neu gerdded i'r ysgol, gyda'r Cyngor Eco yn chwarae rôl weithredol wrth roi'r agwedd hon ar waith.



Diolch i'r cyllid grant, mae llochesi newydd i feiciau a sgwteri wedi cael eu codi ar dir yr Ysgol.

Mae dau sgwter newydd a helmedau wedi cael eu darparu a bydd cyfle gan ddisgyblion i fod yn 'Sgwterwr yr Wythnos' fel rhan o gynllun 'Disgybl yr Wythnos'.

Mae troedffyrdd lletach gyda wynebau ffordd newydd a chroesfannau bwrdd wedi'u codi wedi cael eu gosod i helpu sgwteri symudedd a defnyddwyr cadeiriau gwthio.

**Gobeithio y bydd cydweithredu parhaus â'r gymuned yn helpu i gadw ein hysgol yn ddiogel ac yn iach.**

**Mrs Jane Wynn — Pennaeth**

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government